# Natur Drws Nesaf

## Cyfrifon Banc ar gyfer Grwpiau

Bydd arnoch angen cyfrif banc os yw eich grŵp yn gwneud cais am grantiau. Bydd arnoch angen un hefyd os byddwch yn casglu rhoddion neu ffioedd ac yn defnyddio'r arian hwnnw i brynu pethau ar gyfer eich prosiect. Peidiwch â chael eich temtio i ddefnyddio cyfrif personol! Mae'n mynd yn flêr iawn yn gyflym iawn.

Gall gymryd rhai wythnosau i agor cyfrif banc. Os na allwch aros mor hir â hynny, neu os na allwch agor cyfrif, gallwch ddefnyddio gwasanaeth o'r enw Accountable sy'n cael ei redeg gan CIC The Social Change Nest yn https://thesocialchangeagency.org/what-we-do/support-for-groups-and-movements/accountable/. Mae hyn yn cymryd tua 5 diwrnod a bydd yn costio £42 i chi ei sefydlu.

Mae'r rhan fwyaf o fanciau traddodiadol yn cynnig cyfrifon "cymunedol" ar gyfer grwpiau nid-er-elw. Mae rhai ohonynt yn disgwyl i chi fod yn elusen gofrestredig ond mae llawer sydd ddim yn gofyn am hynny, felly chwiliwch o gwmpas. Fodd bynnag, bydd angen i chi edrych o dan adran "busnes" eu gwefannau.

### Beth i'w ystyried

- Chwiliwch am gyfrif heb ffioedd.
- Gwiriwch eich bod yn bodloni'r "meini prawf cymhwysedd" sy'n golygu, allwch chi wneud popeth maen nhw'n gofyn amdano? Gallai hyn fod yn bethau fel blaendal gofynnol, er enghraifft.
- Ydych chi eisiau rheoli pethau ar-lein? Oes ap da?
- Oes angen i chi gymryd taliadau cerdyn oddi wrth bobl? Ydi hynny'n hawdd ei sefydlu?
- A fyddwch chi'n defnyddio arian parod a / neu sieciau? Pa mor hawdd yw hi i gyrraedd cangen i dalu arian parod neu sieciau i mewn?
- Oes nodweddion defnyddiol fel meddalwedd cyfrifo am ddim?

### Pobl sydd angen bod yn gysylltiedig

Mae "llofnodwr" yn golygu rhywun sydd wedi'i enwi fel rhywun sy'n gallu llofnodi sieciau ar gyfer y cyfrif. Bydd angen dau lofnodwr ar y rhan fwyaf o gyfrifon i gymeradwyo trafodion. Mae hyn yn atal un person rhag cael yr holl bŵer. Mae'n syniad da cael tri o bobl wedi'u henwi fel llofnodwyr - os bydd un person i ffwrdd, mae gennych chi ddau o bobl ar ôl o hyd i gymeradwyo.

Fel arfer, un o'r bobl hyn fydd trysorydd eich grŵp.

Jiwbilî Platinwm y Frenhines 2022 | Gwnaed yn bosibl gan Cronfa Treftadaeth / Made possible with Heritage Fund | The Queen's Platinum Jubilee 2022 | Ymddiriedolaethau Natur Cymru / Wildlife Trusts Wales

# Natur Drws Nesaf

## Y gwaith papur sydd arnoch ei angen

Er bod mwy o fanciau yn symud i geisiadau ar-lein, mae llawer yn dal i fod angen i chi fynd i mewn i gangen. Mae gan bob banc ofynion gwahanol am waith papur, ond fel arfer bydd rhaid i chi fynd â'r canlynol gyda chi:

- Prawf o bwy yw'r llofnodwyr
- Prawf o gyfeiriad y llofnodwyr (dylai fod gan y banc restr o'r hyn sy'n dderbyniol)
- Cyfansoddiad ysgrifenedig eich grŵp
- Ffurflen gais wedi'i llenwi

Os ydych chi'n elusen gofrestredig, ewch â'r ddogfen gofrestru neu'r weithred ymddiriedolaeth.

Os ydych chi'n gwmni cyfyngedig, bydd arnoch angen eich Memorandwm a'ch Erthyglau Cwmni.

## Dolenni defnyddiol i fanciau

CAF – Charities Aid Foundation (rhaid rhoi blaendal o £1000)

Unity Trust Bank (rhaid rhoi blaendal o £500)

Royal Bank of Scotland (i gael bancio am ddim, rhaid i un llofnodwr fod yn gwsmer gyda'r RBS)

Virgin Money (dim angen blaendal ond dim ond 10 trafodiad y mis gewch chi eu gwneud)

Santander (yr enw arno yw Cyfrif Cyfredol Trysorydd)

Barclays (mae grwpiau cymunedol newydd yn cael 12 mis o fancio am ddim – sgroliwch i lawr)

Co-operative Bank (ar gyfer elusennau cofrestredig, CICs a chydweithfeydd yn unig)

Lloyds Bank (yr enw arno yw Cyfrif Trysorydd)

Bank of Scotland (yr enw arno hefyd yw Cyfrif Trysorydd; gall fod yn elusen gofrestredig neu ddim)

HSBC (does dim rhaid i chi fod yn elusen ond cofiwch ddarllen y print mân yn ofalus)

Jiwbilî Platinwm y Frenhines 2022 | Gwnaed yn bosibl gan Cronfa Treftadaeth / Made possible with Heritage Fund | The Queen's Platinum Jubilee 2022 | Ymddiriedolaethau Natur Cymru Wildlife Trusts Wales